**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 19 IONAWR 2022 DYDD MERCHER, 19 IONAWR 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Pob Cynghorydd (Monitro) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |
| Sarah King (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Davies, Dirprwy Aelod/Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| | **COFNODION** | |
| No. 4 | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFOREDIG** | |
| No. 5 | **BLAENRAGLEN GWAITH – 2 MAWRTH 2022**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Arweinydd y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn y Flaenraglen Gwaith a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| No. 6 | **GWEITHREDU CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG DE DDWYRAIN CYMRU**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr yr adroddiad sy'n nodi model interim at gyfer llywodraethiant a chyflenwi sy'n ddigonol i weithredu'r gofynion statudol ar gyfer sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru.<br><br>Ychwanegwyd fod yr adroddiad yn rhoi manylion dull 'dau drywydd'' i weithredu Bargen Ddinesig Prifddinas Caerdydd wrth ochr cyfnod dechreuol 'lleiafswm' dechreuol y Cydbwyllgor Corfforedig cyn i Gydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru osod ei gyllideb statudol gyntaf ar 31 Ionawr 2022. | |

Siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr am yr adroddiad a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol o'r gofynion cyfreithiol a fanylir yn yr adroddiad. Cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr at faint o waith a wnaethpwyd eisoes a dywedodd, nes y bydd wedi sefydlu'n llawn, y bydd y cyd-bwyllgor yn rhedeg yn gyfochrog gyda threfniadau presennol y Fargen Ddinesig.

Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr ymhellach y goblygiadau ariannol a dywedodd na fyddai unrhyw effeithiau ar y gyllideb yn 2022/2023 gan y caiff y gwaith ei wneud gyda'r cyllid sydd eisoes wedi ei ymrwymo ar gyfer y Fargen Ddinesig.

I gloi, cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr at yr argymhellion oedd bennaf ar gyfer eu nodi gan y Pwyllgor Gweithredol. Ceisiodd yr argymhelliad terfynol gefnogaeth i Arweinydd y Cyngor osod y gyllideb a byddai hynny'n digwydd ar 31 Ionawr 2022.

Dywedodd yr Arweinydd y bu llawer o drafodaeth ar y mater a gafodd ei dderbyn erbyn hyn. Dywedodd yr Arweinydd, er fod yr adroddiad yn fanwl iawn, ei fod yn rhoi eglurdeb o'r rhesymeg y byddai awdurdodau lleol yn gweithredu arno.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr argymhellion a gofyn i'r Pwyllgor Gweithredol i gymeradwyo argymhelliad (g) ar wahân.

Cynigiodd Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol argymhelliad (g) ac eiliodd yr Aelod Gweithredol Addysg argymhelliad (g). Roedd pob aelod o'r Pwyllgor Gweithredol o blaid yr uchod ac felly

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn nodi'r argymhellion dilynol:-

(a) y model interim ar gyfer llywodraethiant a chyflenwi ar gyfer gweithredu Cydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru a'r trefniadau 'dau drywydd' a gynigiwyd ar draws gweithrediad Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, wrth ochr gweithrediad dechreuol Cydbwyllgor Corfforedig 'lleiafswm' – a than yr amser y gallai'r dull 'codi a symud' arfaethedig ddigwydd;

(b) y gofyniad i'r Cydbwyllgor Corfforedig osod a chymeradwyo cyllideb ar neu cyn 31 Ionawr 2022 a'r camau a nodir yn yr

| | | |
|---|---|---|
| | adroddiad i alluogi hyn;<br><br>(c) y risgiau a'r materion a nodir yn yr adroddiad sydd angen monitro, lliniaru a rheoli parhaus;<br><br>(d) cais Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddiwygio rheoliadau'r Cydbwyllgor Corfforedig i newid y dyddiad ar gyfer dechrau dyletswyddau uniongyrchol dan y Rheoliadau o 28 Chwefror 2022 i 30 Mehefin 2022;<br><br>(e) y drafft Reolau Sefydlog yn Atodiad 1 sy'n nodi'r gofynion dechreuol a'r model gweithredu ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforedig yn ogystal â'r busnes dechreuol ar gyfer y cyfarfod cyntaf ar 31 Ionawr 2022;<br><br>(f) gwaith cyfredol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Cynghorau sy'n rhan ohono i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru a cynghorwyr fel sy'n addas, i helpu seilio penderfyniad y materion sydd ar ôl lle bynnag sy'n bosibl; ac<br><br>(g) cefnogi Arweinydd y Cyngor yn ei ddyletswydd i ystyried a gosod cyllideb gyntaf Cydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru ar 31 Ionawr 2022 i sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth fel sydd angen. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** | |
| **No. 7** | **<u>TIR YN RASA</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal y budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad fod yn eithriedig.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a rhoddwyd trosolwg i'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyllgor Gweithredol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a derbyn yr wybodaeth sy’n cynnwys manylion yn ymwneud â materion busnes/ariannol personau heblaw’r Awdurdod (Opsiwn 1). | |